



# Diweddariad Cymunedol

Gwanwyn 2019



## Yn y rhifyn hwn

- T1** Cyfarwyddwr Cyflawni newydd i'r Awdurdod
- T2** Criw Craggy Gwobrwo Gwirfoddolwyr y Parc Cenedlaethol
- T3** Prosiect Partneriaeth Defnydd Tir y Mynyddoedd Du – Newyddion Addysg Prosiect Cyflogaeth Ieuentid – Cynllun Hyfforddeion Bannau Brycheiniog
- T4** Geofest 2019 Adefilion yr hen Waith Powdr Gwn ym Mhontneddfechan wedi'u hachub! 'Cyfnod Ffrwydrol' – Hyfforddai Dehongli Treftadaeth
- T5** Newyddion diweddaraf am Geoparciau'r Iwerydd Mae Goresgynwyr y Parc Cenedlaethol yn galw arnoch!
- T6** Grŵp Modrwoy Llan-gors yn Dathlu 40 Mlynedd
- T7** Digwyddiadau
- T9** A-Z yr Awdurdod

## Helo a chroeso

i rifyn Gwanwyn 2019 o Diweddariad Cymunedol gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Yn y rhifyn hwn, cewch straeon a diweddariadau am y gwaith yr ydym yn ei wneud ledled y Parc Cenedlaethol ac rwy'n gobeithio y bydd y rhain yn ddiddorol a pherthnasol i chi. Mae gennym hefyd fanylion am rai digwyddiadau sydd ar y gweill a fydd efallai o ddiddordeb i chi. Os hoffech gael eich enw ar ein rhestr bostio i dderbyn y cylchlythyr hwn, cofiwch gysylltu â'r Tîm Cymunedau drwy gyfrwng y Rhestr A-Z o Wasanaethau ar ddiwedd y cylchlythyr hwn. Mae'r cylchlythyr ar gael ar-lein hefyd yn <http://www.bannaubrycheiniog.org/cymunedau/diweddariad-cymunedol/>

Mae gennym Swyddog Diogelu Data sy'n gwneud yn siŵr ein bod yn parchu eich hawliau ac yn dilyn y gyfraith. Os oes gennych unrhyw bryderon neu gwestiynau ynghylch sut ydym yn gofalu am eich gwybodaeth bersonol, cofiwch gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data [dpo@beacons-npa.gov.uk](mailto:dpo@beacons-npa.gov.uk) neu ffonio 01874 624437. Mae Hysbysiad Preifatrwydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar gael yn [www.beacons-npa.gov.uk/the-authority/privacy-notice/](http://www.beacons-npa.gov.uk/the-authority/privacy-notice/)



*Julian Atkins, Prif Swyddog Gweithredol,  
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog*

## Cyfarwyddwr Cyflawni'r Parc Cenedlaethol – Mr Stephen Gray

**Mae'n bleser mawr gennyf gyhoeddi bod Mr Stephen Gray wedi cael ei benodi'n Gyfarwyddwr Cyflawni'r Parc Cenedlaethol; bydd yn dechrau ei waith gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar ddiwedd Ionawr 2019.**

Yn ei swydd flaenorol fel Prif Swyddog Gweithredol Earthwatch (Ewrop), roedd Stephen yn gyfrifol am holl agweddau ar lywodraethu, strategaeth a chodi arian, yn ogystal â monitro a gwerthuso. Mae ef wedi gweithio yn y sector cadwraeth am dros 15 mlynedd wedi iddo raddio o Brifysgol Southampton (BA Daearyddiaeth & Archaeoleg) a Choleg y Brifysgol Llundain (MA Rheoli Safleoedd Archaeolegol). Mae gan Stephen brofiad o ddatblygu a gweithredu partneriaethau yn y DU, Affrica Is-Sahara a Gorllewin Affrica, China, Brasil a'r Dwyrair Canol. Yn ystod ei yrfa, mae Stephen hefyd wedi gweithio ym maes codi arian, yn arbennig fel Pennaeth Codi Arian gyda'r Ymddiriedolaeth Adar Dŵr a Gwlyptiroedd. Ar hyn o bryd, mae'n un o Ymddiriedolwyr y Gymdeithas Cadwraeth Forol.



Bu proses recriwtio Stephen i rôl Cyfarwyddwr Cyflawni yn un fanwl a thrylwyr ac yn un a fanteisiodd ar broses recriwtio Prif Weithredwr Cyngor Sir Gaerfyrddin. Allan o'r naw ymgeisydd, roedd perfformiad Stephen yn rhagori a llwyddodd ei gyflwyniad ar Ddatganiad Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru fel rhan o'i gyfweiliad olaf i greu argraff ffafriol iawn ar y Panel Penodiadau. Rwy'n siŵr y byddwch eisieu croesawu Stephen i'n teulu ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weithio gydag ef ar yr heriau sy'n ein hwynebu.

*Julian Atkins, Prif Swyddog Gweithredol,  
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog*



Digwyddiadau iasoer yn y Pafiliwn

## Criw Craggy

Mae Criw Craggy, Ffrindiau Parc Gwledig Craig-y-nos wedi bod yn brysus eto yn y misoedd diwethaf. Yn yr Hydref y llynedd, buom yn cydweithio gyda staff o Gastell Craig-y-nos i gynnal digwyddiad Calan Gaeaf arbennig gyda cherfio pwmpenni, gwneud masgiau ac ysgubau besom yn y Parc. Cafwyd taith gerdded ddychrynlyd hefyd o'r castell i gae'r pafiliwn. Daeth dros 200 o bobl ynghyd i fynd ar y daith gerdded a bu'n rhaid iddynt fod yn gadarn a di-ofn wrth gerdded heibio coed bwganod, hen gawr crebachlyd a'r Fari Lwyd cyn mwynhau stori ysbryd gan wrach Craig-y-nos.

Wrth edrych ar bethau llai dychrynlyd, mae ein pedwar myfyriwr garddwriaeth y Gymdeithas Arddwriaeth Frenhinol bellach hanner ffordd drwy eu hail flwyddyn. Rydym wedi dechrau clirio'r ddaear islaw'r teras er mwyn dechrau gweithio ar ein Gardd Gymunedol. Mewn amser, byddwn yn cynnig cyrsiau achrededig mewn Garddwriaeth i bob gallu. Mae'r Parc Gwledig hefyd wedi croesawu Warden newydd, Paul Chapman ac mae'n rhaid i ni ddiolch i Ian Penn am ei holl waith caled a'i ymrwymiad i'r Parc yn ystod ei gyfnod gyda ni. Dymunwn yn dda iddo i'r dyfodol.

**Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag Eleanor Flaherty, Criw Craggy**  
[www.facebook.com/criwcraggy](https://www.facebook.com/criwcraggy) [info@eleanorflaherty.co.uk](mailto:info@eleanorflaherty.co.uk) 07794 073421



Myfyrwyr Garddwriaethol y Criw yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru



Henry, sy'n wyth mlwydd oed, yn cyflwyno'r gwobrau i wirfoddolwyr gyda'i fam Louise.

## Gwobrwyo Gwirfoddolwyr y Parc Cenedlaethol

**Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi cydnabod gwaith caled ac ymrwymiad ei wirfoddolwyr ac wedi rhoi tair Gwobr "Gwirfoddolwr y Flwyddyn, Huw Price" mewn cyflwyniad ym Mhencadlys y Parc Cenedlaethol.**

Roedd Huw Price yn Swyddog Datblygu Gwirfoddol gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Bu farw Huw yn 2014 a sefydlwyd cronfa er cof amdano. Mae'r gwobrau'n dathlu'r angerdd oedd gan Huw dros weithio i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'i ymrwymiad i'r gwirfoddolwyr. Cyflwynodd Henry, mab Huw Price sy'n wyth oed, y gwobrau i Eddie Procter, John Holden a Ross Duffield (ar ran Keith Crook).

Derbyniodd Eddie Procter y wobwr fel arweinydd tîm sydd wedi gwasanaethu hiraf gyda Grŵp Gwirfoddoli'r Ucheldir; a ddechreuodd gydag wyth gwirfoddolwr yn y Mynyddoedd Du yn 2012. Nod y prosiect gwreiddiol oedd datblygu arweinwyr timau gwirfoddoli a fyddai'n rheoli grwpiau ac yn helpu i gynnal rhwydwaith llwybrau'r ucheldir. Ers hynny, mae'r grŵp wedi datblygu a gyda chyllid drwy'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy, crëwyd grŵp arall yn y Bannau Canolog, ac yna Grŵp Cadwraeth yr Ucheldir. Mae Gwirfoddolwyr yr Ucheldir yn chwarae rhan sylfaenol yng Nghynllun Rheoli Ucheldir Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae John Holden wedi bod yn gwirfoddoli gyda'r Parc Cenedlaethol am wyth mlynedd ar hugain, a dechreuodd drwy wneud gwaith ymarferol ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus gyda'r Wardeniaid yn ardal y Fenni. Mae ef a'i wraig wedi gwirfoddoli ar y cynllun 'Mabwysiadu Llwybr', ac mae hefyd yn un o Wirfoddolwyr y Meysydd Parcio ers tro.

Nid oedd Keith Crook yn medru dod i'r seremoni, ond rhoddwyd gwobr iddo am ei gyfraniad fel Gwirfoddolwr yr Ucheldir dros y chwe blynedd ddiwethaf. Fel un sy'n defnyddio Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent, mae gwirfoddoli wedi bod yn rhan o wellhad ac adferiad Keith.

Roedd Henry, sy'n wyth mlwydd oed, yn falch iawn o gyflwyno'r gwobrau er cof am ei dad a dywedodd;

"Mae helpu a chefnogi'r gwirfoddolwyr yn beth da am eu bod nhw'n gweithio'n galed i ofalu am y Parc Cenedlaethol fel bod pobl sy'n ymweld â'r lle yn gallu ei fwynhau."



Capel Penyrheol

## Prosiect Partneriaeth Defnydd Tir y Mynyddoedd Du – Newyddion Addysg

Yn ddiweddar, dechreuodd Partneriaeth Defnydd Tir y Mynyddoedd Du ail gam ei gynllun allgymorth sy'n cael ei ariannu gan Gynllun Rheoli Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

Dros yr hanner tymor hwn, mae'r tîm Addysg wedi bod yn ymgysylltu gydag ysgolion lleol o fewn ardal Prosiect Partneriaeth Defnydd Tir y Mynyddoedd Du er mwyn ysbrydoli plant ysgol i werthfawrogi a deall yr hyn sy'n arbennig am y Mynyddoedd Du, sut mae ffermio'n bwysig ar gyfer bywyd gwyllt a phobl, a beth allan nhw ei wneud er mwyn gwneud gwahaniaeth ar gyfer y dyfodol. Bydd plant ysgol hefyd yn dysgu sut mae ymwelwyr yn gallu cael effaith ar y tir ac yn dysgu am effeithiau newid hinsawdd. Capel Pen yr Heol yw lleoliad yr ymweliadau ysgol, a bydd y plant yn cael eu tywys am dro ar y bryniau. Mae sesiwn 'ystafell ddsbarth' rhyngweithiol yn y stabl, gerllaw'r capel, cyn y daith gerdded. Yno, caiff nodau'r bartneriaeth eu hatgyfnerthu a rhoddir cyfle i'r grwpiau ysgol ddysgu mwy am bori yn y Mynyddoedd Du ddoe a heddiw. Bydd y prosiect yn parhau yn Nhyrnor y Gwanwyn, gyda'r trydydd cam yn dechrau yn haf 2019.

Dylai grwpiau sydd â diddordeb gysylltu â Lora ar [lora.davies@beacons-mpa.gov.uk](mailto:lora.davies@beacons-mpa.gov.uk), neu roi galwad i Dim Addysg Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar 01874-624437 i archebu ymweliad yn rhad ac am ddim. Darperir cludiant yn rhad ac am ddim hefyd.



Ysgol Gynradd Gilwern yn dysgu am y Mynyddoedd Du



Hyfforddeion Bannau Brycheiniog

## Prosiect Cyflogaeth Ieuentid – Cynllun Hyfforddeion Bannau Brycheiniog – yn Ennill Sêl Bendith Brenhinol

**Mae trydedd rownd Cynllun Hyfforddeion Bannau Brycheiniog, sef y rhaglen Sgiliau Gwledig a gynhelir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Prince's Trust Cymru, wedi'i chwblhau. Mae'n mynd o nerth i nerth gyda dros 30 o bobl ifanc wedi cwblhau eu hyfforddiant dros y flwyddyn ddiwethaf.**

Nod y prosiect yw ymgysylltu â phobl ifanc Nad Ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET) a darparu cyfle iddynt brofi a deall y cyfleoedd sydd ar gael yn y sector treftadaeth amgylcheddol lleol, ac ennill sgiliau ar gyfer gwaith. Ariennir 80% o'r prosiect gan Arwain (Cynllun Datblygu Gwledig LEADER ym Mhowys). Caiff ei ariannu gan Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

Mae'r hyfforddeion wedi ymarfer nifer o sgiliau ymarferol o ran rheoli tir ac wedi ennill cymwysterau mewn defnyddio torwyr prysg, llifiau cadwyn, peiriannau torri gwair, trin â llaw a chymorth cyntaf wrth gael profiad o weithio gyda Wardeniaid y Parc Cenedlaethol. Yng Ngorffennaf 2018, daeth Ei Uchelder Brenhinol, Tywysog Cymru, a sefydlodd y Prince's Trust, i ymweld â'r hyfforddeion yng Nghanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol, a gwnaeth yr ystod sgiliau a ddangoswyd gan yr ieuentid argraff fawr arno. Ffilmiwyd yr ymweliad hwn a'i ddefnyddio fel rhan o gynhyrchiad BBC i ddathlu Pen-blwydd Tywysog Siarl yn 70. Roedd ein hyfforddeion i'w gweld pan ddarlledwyd y rhaglen ym mis Hydref 2018!

Un o nodau allweddol y rhaglen yw cefnogi pobl ifanc i wireddu eu potensial. Mae mwyafrif yr hyfforddeion wedi symud ymlaen i waith cyflogedig. Mae un o'r hyfforddeion yn ail rownd y prosiect wedi llwyddo i sicrhau prentisiaeth cefn gwlad 2 flynedd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n cynnwys diwrnod yr wythnos yn y coleg. Dyma beth sydd ganddo i'w ddweud am ei brofiad gyda Chynllun Hyfforddeion Bannau Brycheiniog:

'Fyddwn i ddim wedi cael y swydd gyda CNC heb y sgiliau a ddysgais neu'r hyder a gefais ar y rhaglen hyfforddi hon. Mae wedi agor cymaint o ddrysau i fi.'

Bydd y broses recriwtio ar gyfer y cynllun Hyfforddi nesaf yn dechrau gyda Diwrnod Blasu ar 27 Mawrth 2019. Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod rhwng 18 a 30 mlwydd oed, yn byw ym Mhowys, a naill ai'n ddi-waith neu'n gweithio lai na 16 awr yr wythnos. Mae diddordeb a brwdfrydedd dros weithio ar reoli tir yn yr awyrgored yn hanfodol.

**Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Ceri Bevan ar [ceri.bevan@beacons-mpa.gov.uk](mailto:ceri.bevan@beacons-mpa.gov.uk) neu rhwch alwad ar 01874 620471.**

**Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru yn cwrdd â'r Hyfforddeion.**





NEIL MANSFIELD

Cyn y gwaith atgyweirio



Ar ôl y gwaith atgyweirio

## Adeilion yr hen Waith Powdr Gwn ym Mhontneddfechan wedi'u hachub!

**Ar ôl misoedd o waith caled a manwl, mae adeilion yr hen Waith Powdr Gwn ym Mhontneddfechan wedi'u hachub i genedlaethau'r dyfodol. Cyn hyn, roedd yr adeilion mewn cyflwr bregus iawn, ond mae arbenigwyr wedi bod yn gweithio chwe diwrnod yr wythnos dros y naw mis diwethaf i adfer a sefydlogi'r strwythurau oedd yn weddill o'r adeiladau yn y lleoliad hanesyddol pwysig hwn.**

Ar un adeg, y melinau hyn oedd y gwaith powdr gwn mwyaf llwyddiannus yng Nghymru, a chynnyrch y gwaith yn hanfodol i'r twf yn y diwydiant glo a mwyngloddio a ddigwyddodd yn ne Cymru yn ystod y 19eg a dechrau'r 20fed ganrif. Mae'r gwaith wedi'i leoli yn un o'r safleoedd ecolegol a warchodir fwyaf yn y Parc Cenedlaethol, ac mae'r gwaith i adfer y strwythurau wedi bod yn heriol iawn. Bu'n rhaid i'r contractwyr weithio dan amodau llym i sicrhau bod cennau a mwsoglau'r safle sy'n rhyngwladol bwysig yn cael eu gwarchod, ynghyd â rhywogaethau bywyd gwylt amrywiol.

Mae'r ffaith bod y gwaith wedi'i leoli ar lethrau serth y dyffryn yn golygu bod gofyn am offer arbenigol i ymdopi gyda'r lle gweithio cyfyng a natur fregus y safle.

Er gwaethaf hyn, yn ogystal â'r 'Bwystfil o'r Dwyrain', daeargryn a haf eithriadol o boeth a oedd yn sychu'r mortar calch yn gyflymach nag yr oedd yn setio, mae'r tîm wedi llwyddo i gyflawni gwaith gwych! Erbyn hyn, mae adeilion 11 strwythur allweddol a oedd yn rhan annatod o broses paratoi'r powdr gwn wedi'u hadfer i'r tymor hir.

Mae'r gwaith hwn yn rhan o raglen ehangach a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri i gadw a dathlu hen weithfeydd. Am ragor o wybodaeth, e-bostiwch [explosivetimes@beacons-npa.gov.uk](mailto:explosivetimes@beacons-npa.gov.uk).

## 'Cyfnod Ffrwydrol' – Hyfforddai Dehongli Treftadaeth

**Ym Medi 2018, bûm yn ddigon ffodus i gael fy newis yn Hyfforddai Dehongli Treftadaeth gyda phrosiect Cyfnod Ffrwydrol, a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Wrth ysgrifennu hwn, rwyf nawr hanner ffordd drwy fy chwe mis gyda'r Parc Cenedlaethol ac mae'r cyfnod wedi bod yn llawn cyffro!**

Mae gennyf ddi-ddordeb mewn hanes a'r amgylchedd ers tro byd, ac astudiais Arweinyddiaeth a Rheolaeth Antur Awyr Agored yn y brifysgol. Mae'n wych gallu cyfuno'r holl bethau hyn yn yr hyn sy'n bwnc newydd i fi ond yn bwnc sy'n rhoi gwefr go iawn i fi. Mae gweithio gyda Suzanna Jones, y Swyddog Dehongli, wedi agor fy llygaid i fyd dehongli treftadaeth a'r prosiectau diddorol niferus sy'n deillio o hyn.

Wrth gwrs, mae'r cyfan wedi bod yn her ac yn broses ddysgu fawr i fi ond rwyf wedi mwynhau'r cyfan. Mae cyfleoedd i fod yn rhan o gynllun hyfforddi i'r Parc Cenedlaethol neu gynllun dehongli treftadaeth yn brin iawn ond yn hynod o werthfawr i unigolion fel fi. Rwy'n cael hyfforddiant rhagorol a fydd yn rhoi sylfaen gref i'r dyfodol. Mae cyflogwyr bob amser yn chwilio am "brofiad yn y gwaith" ac yn aml, dyna yw'r maen tramgwydd i gymaint o bobl ifanc (ac rwy'n dal i ystyried fy hun yn berson ifanc!).

Erbyn hyn, rwy'n sylweddoli pa mor bwysig yw'r Parciau Cenedlaethol ledled y byd, a hefyd y nodweddion dehongli sy'n adrodd eu stori. Mae creu sgysiaid ynghylch ein hanes a'n tirwedd yn helpu ymwelwyr i ddysgu, a hynny'n gwella eu mwynhad a'u hawydd i warchod y nodweddion hyn.

Mewn cyfnodau o ansicrwydd, heb os, bydd pobl yn parhau i garu a gofalu am y Parc Cenedlaethol, felly mae yna ddyfodol disglair. Rwy'n gobeithio bod yn ddigon ffodus i fod yn rhan o'r dyfodol hwnnw.

*Josh Sankey, Hyfforddai Dehongli Treftadaeth*

A chadwch lygad am newyddion cyffrous am ddigwyddiad arbennig iawn a fydd yn digwydd yng Nghraig-y-nos yn ystod Geofest 2019!

**Bydd y rhaglen lawn ar gael yn fuan ar <http://www.geoparcyfforestfawr.org.uk/geofest-2019/>**





Y grŵp diweddaraf o Lysgenhadon y Geoparc

## Newyddion diweddaraf am Geoparciau'r Iwerydd

**Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar hyn o bryd yn recriwtio gwirfoddolwyr i weithio o fewn y Parc.**

Mae Geoparc Byd-eang UNESCO y Fforest Fawr yng ngorllewin y Parc Cenedlaethol ar hyn o bryd yn cymryd rhan mewn prosiect dwy flynedd, Geoparciau yr Iwerydd, ac sy'n cael ei ariannu gan raglen Ardal Iwerydd Interreg yr UE.

Gyda 11 o dirweddau daearegol nodedig eraill, naw ohonynt yn Geoparciau Byd-eang UNESCO, mae Fforest Fawr yn gweithio i hybu Llwybr Geodwristiaeth Iwerydd Ewropeaidd, sef llwybr diwyllianol newydd sy'n dathlu Geodwristiaeth.

Yn ystod yr haf, treuliodd criw ffilmio o Sbaen ychydig o ddyddiau yn Geoparc Byd-eang UNESCO y Fforest Fawr yng ngorllewin y Parc. Bu'r criw yn ymweld â lleoliadau fel Craig-y-nos, Maen Llia a Bryngaer Garn Goch, gan ffilmio rhai o'r safleoedd gorau yn y Geoparc ar gyfer fideo am y Llwybr Geodwristiaeth Iwerydd Ewropeaidd. Edrychwn ymlaen at rannu'r fideo gorffenedig a'r ffotograffau gyda chi yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Rhan bwysig o'r prosiect yw hybu cymunedau i ymgysylltu gyda'u geoparc er mwyn iddyn nhw, ac unrhyw ymwelwyr, fwynhau profiad dilys ac unigryw a dod i ddeall y gyrchfan yn well. Un ffordd a ddefnyddiwn i wneud hyn yn Geoparc y Fforest Fawr yw drwy ein cwrs hyfforddi Llysgenhadon y Geoparc. Defnyddiwyd arian o'r prosiect Interreg i hyfforddi llawer mwy o Lysgenhadon y Geoparc yn yr hydref. Bellach, mae gennym fwy na 100 o Lysgenhadon Geoparc y Fforest Fawr; mae gan bob un ohonynt gysylltiad â busnesau sy'n ymwneud â thwristiaeth, ac mae pob un yn fodlon rhannu eu gwybodaeth i helpu ymwelwyr i ddeall, archwilio a mwynhau'r Geoparc.

**Ariennir y prosiect hwn ar y cyd gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Raglen Ardal Iwerydd Interreg. Am fanylion pellach, cysylltwch ag Alan Bowring 01874 624437 alan.bowring@beacons-npa.gov.uk**

## Mae Goresgynwyr y Parc Cenedlaethol yn galw arnoch! Angen cofnodion.

**Mae Goresgynwyr y Parc Cenedlaethol yn brosiect i geisio canfod atebion a fydd yn delio â thair rhywogaeth oresgynnol sy'n achosi problemau yn nalgylchoedd afonydd Wysg a Tawe. Nid yw'r rhywogaethau hyn wedi'u cyfyngu i'r afonydd hyn yn unig ond yn hytrach, maent i'w gweld ledled y Parc Cenedlaethol.**

Drwy'r gwanwyn eleni, rydym yn gofyn i chi gadw llygad am y tair rhywogaeth a'u cofnodi: Jac y Neidiwr, Clymog Japan a'r Efwr Enfawr.

**Jac y Neidiwr:** Gellir ei adnabod yn rhywydd yn yr haf o'i flodau pinc a'i arogl cryf, ond efallai nad yw mor rhywydd ei adnabod yn y gwanwyn.

Yn y llun, Jac y Neidiwr yw'r planhigyn gyda'r gwythiennau coch a dannedd mân ar ymylon y dail. Fe'i dangosir gyda danadl gan ei bod yn gyffredin gweld y ddau blanhigyn gyda'i gilydd; dyna pam ei bod yn ddoeth gwisgo menig a llewys hir wrth dynnu Jac y Neidiwr! Nid yw codi Jac y Neidiwr â llaw yn anodd oherwydd ei system wreiddiau fas ac felly mae'n dod fyny'n weddol rwydd. Mae'n rhaid i chi gofio tynnu'r gwreiddyn cyfan allan; gallai torri'r coesyn yn y lle anghywir achosi i'r planhigyn adfywio a chynhyrchu mwy o flodau a mwy o hadau. A gair o gyngor – gwnewch yn siŵr eich bod yn hyderus eich bod wedi adnabod y planhigyn cywir cyn tynnu unrhyw blanhigyn o'r ddaear!

**Clymog Japan:** Gellir ei adnabod yn yr haf o'i uchder hynod a'i flodau gwyn ar goesynnau igam ogam. Mae'n bosibl na fyddwch wedi sylwi ar y planhigyn hwn pan fydd yn ymddangos gyntaf yn y gwanwyn.

Yn y llun, Clymog Japan yw'r planhigyn gyda'r coesyn coch ar ffurf igam ogam ar flaen y llun. Mae'r blagur yn ymddangos ym mis Mawrth ac maent yn goch, gyda'r pâr cyntaf o ddail hefyd yn goch ac yna'n wyrd yn ddiweddarach. Mae'r ffaith bod Clymog Japan (Japanese Knotweed) yn tyfu'n gyflym iawn yn eich helpu i'w adnabod; mae'n tyfu'n hynod o gyflym a gall gyrraedd 2-3m o uchder. Mae cyngor Llywodraeth Cymru yn nodi mai chwynladdwr gan gcontractwr arbenigol a chymwys yw'r ffordd fwyaf effeithiol i ddelio gyda'r planhigyn hwn. Gall defnyddio dulliau â llaw fod yn beryglus a pheri iddo ledaenu gan ei fod yn gallu ail-dyfu o'r darnau lleiaf. Os bwriedir defnyddio chwistrellau yn agos at ddŵr, mae'n rhaid cael caniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru. Felly gair o gyngor – peidiwch byth â defnyddio strimer gan y gallai hyn ledaenu'r planhigyn. Mae'n well chwilio am gyngor proffesiynol!

**Efwr Enfawr:** Mae'n gallu tyfu hyd at 5m o uchder ac mae'n hawdd ei adnabod pan fydd fel hyn. Ond yn ei gyfnod cynnar, neu os yw ei dyfiant yn grablyd am ryw reswm, mae'n bosibl ei gymysgu gyda'r efwr brodorol. Yn y llun hwn o'r Efwr Enfawr; mae'n dal i fod yn weddol fach gyda dail llabedog gwyrdd tywyll. Y dail gwyrdd hyn â'r rhaniad dwfn a maint y planhigyn sy'n dangos ei fod yn wahanol i wmbeliferau brodorol eraill. Mae uchder a lled y coesyn a maint y blodau a'r hadau yn yr haf hefyd yn wahaniaethau amlwg. Gellir rheoli'r planhigyn hwn drwy ddefnyddio dulliau cemegol a di-gemegol ac mae cyngor Llywodraeth Cymru yn y ddolen isod yn esbonio hyn yn llawn. Gair o gyngor – mae nodd yn yr efwr enfawr sy'n gallu achosi pothelli poenus a gwneud croen pobl yn sensitif i olau'r haul am flynyddoedd.

Mae taflenni adnabod a mwy o gyngor manwl ynghylch rheoli'r holl rywogaethau hyn ar gael gan Lywodraeth Cymru. <https://beta.gov.wales/weeds-invasive-non-native-species>

Os am roi gwybod am rywogaeth oresgynnol, gallwch ddefnyddio ap cofnodi ar eich ffôn fel I-record neu LERC Cymru neu gallwch fewnbynnu gwybodaeth ar wefan y Ganolfan Cofnodion Biologol Lleol: <https://record.bis.org.uk/>

**Am wybodaeth bellach ynghylch yr hyn y mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ei wneud, edrychwch ar y prosiect ar ein tudalennau gwe: <http://www.beacons-npa.gov.uk/environment/understandbiod/invasive-species-project-invaders-of-the-national-park/>**



Jac y Neidiwr a danadl



Clymog Japan – cyfnodau cynnar



Efwr Enfawr – cyfnodau cynnar



Grŵp Modrwy Llan-gors

## Grŵp Modrwy Llan-gors yn Dathlu 40 mlynedd o osod modrwyau ar adar

Mae Llyn Llan-gors (Llyn Syfaddan) wedi bod yn enwog ers tro byd fel lle sy'n denu adar sy'n gaeafu, bridio a mudo. Dechreuodd yr arfer o osod modrwyau ar adar yn yr 1960au ac erbyn canol yr 1970au, roedd Martin Preece wedi sefydlu nifer o safleoedd rhywau. Yn 1978, derbyniodd nifer o fodrwywyr eraill eu trwyddedau gan Ymddiriedolaeth Ornitholeg Prydain (BTO) sef y corff sy'n rheoli modrwy yn y DU. Er mwyn cydlynu eu hymdrechion yn well, ffurfiwyd Grŵp Modrwy Llan-gors. Roedd deg modrwywyr yn aelodau gwreiddiol, ac mae pedwar ohonynt yn dal i fod yn fodrwywyr prysur hyd heddiw.

Wrth i fwy o bobl ddangos diddordeb mewn dysgu am adar Llan-gors, gwelwyd y Grŵp yn cyfrannu at brosiectau a sefydlwyd gan y BTO i archwilio agweddau fel patrymau mudo adar, hirhoedledd ac arferion bridio. Ar hyn o bryd, mae'r Grŵp yn cyfrannu at y canlynol:-

- Mae'r Cynllun Ymdrech Gyson (CES) yn monitro goroesedd oedolion a chynhyrchedd adar gardd cyffredin gan ddefnyddio nifer arbennig o rwydi dros 10 ymweliad chwe awr rhwng Mai ac Awst. Dechreuodd hyn yn 1981.
- Ail-ddal Oedolion ar gyfer Goroesedd (RAS). Monitro goroesedd Telor y Cyrs oedolyn yng nghyrs y Llyn ym Mehefin a Gorffennaf. Dechreuodd hyn yn 2014.
- Goroesedd a symudiadau Gwydd Canada. Caiff yr haid eu dal yn ystod cyfnod pan nad ydynt yn hedfan yng Ngorffennaf. Dechreuodd hyn yn 1981.
- Modrwy yn y gaeaf ar adar tiroedd fferm. Monitro adar sy'n bwyta hadau, sef breision a llinosiaid yn bennaf. Dechreuodd hyn yn 2015.
- Mae'r Grŵp hefyd yn monitro 50 o flychau nythu mewn coedwigoedd a pherthi lleol i'r Cynllun Cofnodi Nythod.

Ar ôl 40 mlynedd, mae gan y Grŵp 17 o aelodau sy'n rhoi eu hamser a'u hymdrechion yn wirfoddol. Maent wedi modrwyo tua 75,000 o adar unigol o 106 rhywogaeth.

Mae'r Grŵp Modrwy yn ddiolchgar i'r holl berchnogion tir o amgylch y Llyn am ganiatáu mynediad ac i'r canlynol sydd wedi cyfrannu arian tuag at gostau modrwyo, rheoli cynefin a mynediad: Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Ymddiriedolaeth Bannau Brycheiniog, BTO, Cyfoeth Naturiol Cymru, CSV Action Earth, Partneriaeth Amgylcheddol Powys a Chymdeithas Ornitholegol Cymru.

Grŵp Modrwy Llan-gors (Ysgrifennydd: [jmsl2587@yahoo.co.uk](mailto:jmsl2587@yahoo.co.uk)).

.....  
*harchebu ymlaen llaw.*

Am apwyntiad neu unrhyw ymholiad cynllunio cyffredinol ffoniwch 01874 620431 os gwelwch yn dda.

.....  
**Ymholiadau am y Gronfa Datblygu Cynaliadwy**

*I gael mwy o wybodaeth a chynghor am y Gronfa hon ewch i <http://www.bannaubrycheiniog.org/cymunedau/cynaliadwyedd-2/y-gronfa-datblygu-cynaliadwy/> neu cysylltwch naill ai â*

**Helen Roderick**  
neu Ceri Bevan ar 01874 620471

**Ebostiwch**  
[helen.roderick@beacons-mpa.gov.uk](mailto:helen.roderick@beacons-mpa.gov.uk)  
[ceri.bevan@beacons-mpa.gov.uk](mailto:ceri.bevan@beacons-mpa.gov.uk)

*Dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau i'r chwe mis nesaf:*

- 28 Chwefror 2019
- 5 Mehefin 2019
- 21 Awst 2019

## Eisiau ystafell gyfarfod yn Aberhonddu?

Mae'r canlynol ar gael i'w llogi gennym:

- Ystafell gynhadledd
- Ystafell Aelodau Fideo-gynadledda
- Ystafell Ymgynnull Fach

Gwasanaeth Arlwygo ar gael  
Am fanylion cysylltwch â'r  
Dderbynfa 01874 624437  
neu edrychwch ar  
<http://www.bannaubrycheiniog.org/yr-awdurdod/llogi-ystafell/>

## Pabell Fawr Gymunedol Ar Gael

Mae cynllun benthg y Babell Fawr  
Gymunedol yn cynnig cyfle i grwpiau,  
ysgolion, elusennau a sefydliadau  
dielw eraill o fewn y Parc  
Cenedlaethol ddefnyddio'r Babell  
Fawr Gymunedol 20'x30' yn eu  
digwyddiadau lleol. Gofynnir am rodd.

I gael ffurflenni archebu,  
cysylltwch â Ceri Bevan ar  
01874 620471  
[ceri.bevan@beacons-mpa.gov.uk](mailto:ceri.bevan@beacons-mpa.gov.uk)

## Gweddarllediadau

Mae holl gyfarfodydd yr Awdurdod  
ar gael i'w gweld trwy ficrowefan ein  
gweddarllediadau. Ewch i:

<http://www.bannaubrycheiniog.org/yr-awdurdod/gweddarlledu/>

## Digwyddiadau Chwefror - Medi 2019

Am restr gyflawn a manylion pellach am y gweithgareddau  
a'r digwyddiadau yn y Parc Cenedlaethol ewch i  
<http://www.breconbeacons.org/events?lan=cy>

## Digwyddiadau yng Nghanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol

15 Mawrth, 16 Awst, 18 Hydref 2019

### Nosweithiau Syllu ar y Sêr

Bydd Awyr Dywyll Cymru gyda'u planetariwm symudol yn eich tywys ar daith rithwir o'r wybrennau. Gobeithio'n fawr y bydd yr awyr yn llonydd a chlir er mwyn i Allan Trow a Martin Griffiths hefyd allu defnyddio'r telesgop ac ysbieddych i'ch helpu i archwilio'r wybrennau.

Bydd Martin Griffiths, prif gyflwynydd Awyr Dywyll Cymru, yn rhoi sgwrs ddiddorol. Dyma gyfle gwych i bawb sy'n dod draw i weld rhyfeddodau awyr diwedd y gaeaf. Os bydd y tywydd yn ddrwg, bydd y digwyddiad yn dal i gael ei gynnal gyda'r cyflwyniad a'r planetariwm symudol. I gael rhagor o wybodaeth am Awyr Dywyll Cymru, ewch i [www.darkskywalestrainingsservices.co.uk](http://www.darkskywalestrainingsservices.co.uk) neu [www.facebook.com/darkskywales/](https://www.facebook.com/darkskywales/)

Tocynnau'n £15 sy'n cynnwys coffi a chacen i roi dechrau da i'r noson. Bydd y digwyddiad yn dechrau am 7.00pm. Gwisgwch ddillad cynnes os gwelwch yn dda.

Trefnir gan Canolfan Ymwelwyr Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog mewn cydweithrediad ag Awyr Dywyll Cymru



MICHAEL SINCLAIR



## Digwyddiadau ym Mharc Gwledig Craig-y-nos

**Dydd Sadwrn 25 Mai tan ddydd Sul 9 Mehefin 2019**

### Geofest 2019

Dathliad blynyddol o'n Geoparc – Geoparc Byd-eang UNESCO Fforest Fawr yng ngorllewin y Parc Cenedlaethol. Bydd cyfres o deithiau cerdded a sgysiau yn digwydd dros y pythefnos, gan gynnwys cyfle i ddringo i Gribarth a phrynhawn yn archwilio gorffennol Penwyllt ... o bosibl milltir sgwâr mwyaf diddorol y Geoparc.

**Dydd Mercher 29 Mai, 10am-4pm.**

### Diwrnod Gweithgareddau Teuluol

Yn ystod hanner tymor; bydd y Diwrnod Gweithgareddau Teuluol yn digwydd ym Mharc Gwledig Craig-y-nos. Dewch draw i roi cynnig ar ganwio, y weiren sip, geogelcio, celf a chreffft, cerffio cerrig a chloddio am drysor.

**Dydd Sadwrn 28 Medi**

### Canmlwyddiant Adelina Patti

100 ers ei marwolaeth, bydd y diwrnod cymunedol hwn yn dathlu bywyd a gwaith y gantores opera ryngwladol, Adelina Patti. Roedd hi'n byw yng Nghastell Craig-y-nos a bu'n gyfrifol am ddatblygu gardd eang sydd bellach yn Barc Gwledig. Am ragor o wybodaeth: <https://www.facebook.com/criwcraggy/>

## Neuadd Les y Glowyr, Ystradgynlais

**Dydd Iau, 18 Ebrill, 9.30 - 12.30**

### 'Cadw'i Symud' Heneiddio Heini

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Gofal a Thrwisio ym Mhowys yn falch o gynnal y digwyddiad hwn sydd ar gael yn rhad ac am ddim. Bwriad y digwyddiad yw codi ymwybyddiaeth o weithgareddau a gwasanaethau sydd ar gael i bobl hŷn ledled Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'u hannog i fanteisio ar y cyfleoedd hynny. Bydd nifer o stondinau yn darparu gwybodaeth a bydd arddangosfeydd a gweithgareddau blasu i bawb roi cynnig arnynt.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Ceri Bevan, Swyddog Cymunedau Cynaliadwy [ceri.bevan@beacons-npa.gov.uk](mailto:ceri.bevan@beacons-npa.gov.uk) 01874 624437

- Toiledau
- Hurio Ystafelloedd
- Priodasau

Ffôn: 01874 623366

<http://www.breconbeacons.org/national-park-visitor-centre?lan=cy>

## Parc Gwledig Craig-y-nos

*Pen-y-cae, Cwm Tawe SA9 1GL*

- Ystafelloedd Te a Bwyty - *Changing Seasons*  
Ffôn: 01639 731498
- Toiled i bobl anabl gyda lle i newid clwt y baban 24 awr
- Hurio ystafelloedd
- Gofod arddangos
- Canolfan grefft
- Stiwdio wydr
- Stiwdio a chysiau ffotograffiaeth

Ffôn: 01874 624437

[enquiries@beacons-npa.gov.uk](mailto:enquiries@beacons-npa.gov.uk)  
<http://www.breconbeacons.org/craig-y-nos-country-park-visitor-centre?lan=cy>



## A-Y Eich Awdurdod

Eich canllaw i gysylltu â'r Awdurdod am wybodaeth neu wasanaethau

Gwasanaeth neu Dîm	Prif Gyswilt/Swyddogion	Manylion Cyswilt	Rhif ffôn
Ymholiadau cyffredinol	Derbynfa	enquiries@beacons-npa.gov.uk	01874 624437
Addysg, Dehongli a Gwybodaeth	Derbynfa	enquiries@beacons-npa.gov.uk	01874 624437
Adnoddau Dynol	Liz Lewis	elizabeth.lewis@beacons-npa.gov.uk	01874 620436
Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol, 'Y Ganolfan Fynydd', Libanus	Gwasanaethau Ymwelwyr	npvc@beacons-npa.gov.uk	01874 623366
Cyfathrebu	Emma Gray	communications@beacons-npa.gov.uk	01874 620406 01874 620420
Cymunedau cynaliadwy	Ceri Bevan/Helen Roderick Francesca Bell	communities@beacons-npa.gov.uk	01874 624437
Cyllid	Elaine Standen	elaine.standen@beacons-npa.gov.uk	01874 620467
Cynllun Rheoli	Derbynfa	enquiries@beacons-npa.gov.uk	01874 624437
Ecoleg	Brad Welch	bradley.welch@beacons-npa.gov.uk	01874 620411
Gwasanaethau Democraidd a Swyddfa	Julia Gruffydd	julia.gruffydd@beacons-npa.gov.uk	01874 620400
Geoparc Fforest Fawr	Alan Bowring	alan.bowring@beacons-npa.gov.uk	01874 620415
Gorfodi Cynllunio	Kathy Jenkins/Alex Ham	enforcement@beacons-npa.gov.uk	01874 620416
Gweinyddiaeth y Gwasanaethau Cynllunio	Jane Pashley	planning.enquiries@beacons-npa.gov.uk	01874 620422
Gwirfoddoli	Ilona Carati	ilona.carati@beacons-npa.gov.uk	01874 620451


### Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian  
Aberhonddu, Powys LD3 7HP

<http://www.bannaubrycheiniog.org/>


## Cadwch mewn cysylltiad â'r diweddaraf

Erbyn hyn mae hyd yn oed mwy o ffyrdd i gael gwybod y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

 **Gallwch gysylltu â ni ar @croesobannaub**  
.....

**Dilynwch ni drwy Facebook**  
[www.facebook.com/bannaubrycheiniog](http://www.facebook.com/bannaubrycheiniog)  
.....

**Gweler ein Youtube Channel Videos**  
[www.youtube.com/user/BreconBeaconsNPA](http://www.youtube.com/user/BreconBeaconsNPA)  
.....

 **[www.instagram.com/breconbeacons](http://www.instagram.com/breconbeacons)**

## A-Y Eich Awdurdod

Eich canllaw i gysylltu â'r Awdurdod am wybodaeth neu wasanaethau

Gwasanaeth neu Dîm	Prif Gyswllt/Swyddogion	Manylion Cyswllt	Rhif ffôn
Hawliau Tramwy	Eifion Jones	eifion.jones@beacons-npa.gov.uk	01 874 620452
Parc Gwledig Craig-y-nos Pen-y-Cae	Derbynfa	enquiries@beacons-npa.gov.uk	01 874 624437
Prif Weithredwr	Julian Atkins	jean.packer@beacons-npa.gov.uk	01 874 620469
Strategaeth a Pholisi Cynllunio	Helen Lucocq	helen.lucocq@beacons-npa.gov.uk	01 874 620442
Technoleg Gwybodaeth	Paul Funnell	paul.funnell@beacons-npa.gov.uk	01 874 620459
Treftadaeth	Alice Thorne Janet Poole	alice.thorne@beacons-npa.gov.uk janet.poole@beacons-npa.gov.uk	01 874 620418 01 874 620413
Twristiaeth gynaliadwy	Richard Tyler	richard-tyler@beacons-npa.gov.uk	01 874 620405
Y Gwasanaeth Wardeniaid	Judith Harvey	judith.harvey@beacons-npa.gov.uk	07854 997510



## Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian  
Aberhonddu, Powys LD3 7HP

<http://www.bannaubrycheiniog.org/>

ffotograffau © APCBB